

Y Peilon

Tybais pan welais giang o hogiau iach
Yn plannu'r peilon ar y drum ddi-drwst
Na welwn mwy mo'r ysgyfarnog fach,
Y brid sydd rhwng Llanllechid a Llanrwst.
Pa fodd y gallai blwyfo fel o'r blaen
Yn yr un cwmwd á'r ysgerbwd gwyn?
A rhoi ei gorff i orfwys ar y waun
Dan yr un wybren a'i asennau syn?
Ba sentimentaleiddiwch! Heddiw'r pnawn,
O'r eithin wrth ei fon fe wibiodd pry'
Ar garlam igam-ogam hyd y mawn,
Ac wele, nid oedd undim ond lle bu;
Fel petai'r llymbar llonydd yn y gwellt
Wedi rhyddhau o'i afal un o'i fellt

R. Williams Parry

Mwy am dynnu llun y sgwarnog yma ar dudalen 3



Ichtyonymie Bretonne: Atlas linguistique de la faune marine de Bretagne


Dyna oedd teitl y gryno-ddisc daeth trwy'r post y dydd o'r blaen gan un o gyfeillion Llên Natur o Lydaw Wmffra Wmffras. Lluniwyd yr atlas rhyfeddol hon ar sail data a gasglodd Alan-Gwnog-Berr wrth holi trigolion 130 o borthladdoedd Llydaw Isel yn y 1960au ar gyfer traethawd hir i Skol-Veur Breiz-Izel (Prifysgol Gorllewin Llydaw) ym Mrest a gyflwynwyd ym 1973. Mae'n rhestru holl enwau Llydaweg y rhywogaethau morol ar ddau fap, un yn dangos yr enwau yn orgraff safonol y Llydaweg, a'r llall mewn orgraff ffonetig. Hefyd ceir llun, a disgrifiad o bob rhywogaeth yn Llydaweg, Ffrangeg a Saesneg. Mae'n waith blynyddoedd o lafur cariad. Tybed beth allwn ni ei ddysgu ohono yng Nghymru?

Enwau Llydaweg ar yr aderyn drycin manaw gwrthglocwedd o'r gogledd i'r de:

- | | |
|-------------|--------------|
| 1 dadeñ | 2 dingoged |
| 3 denden | 4 dadin |
| 5 Spagnol | 6 me da laho |
| 7 pufin | 8 dadenn |
| 9 karammell | 10 rouzik |
| 11 rouzouk | |



Aderyn drycin manaw *Puffinus puffinus*



Llwynogod Môn

Mae wiwerod coch Cymru wedi ymgulio i Fôn a galw U.D.I. Dwn i'm sut y disgwyliant rwystro rhai llwyd gyrraedd yno gyda dwy bont ysblenydd yn croesi'r Fenaï. I newid tac am funud. Erbyn diwedd y Ddeunawfed Ganrif roedd twrniaid yn llewyrchu ar yr ynys. Ceir tystiolaeth o hyn yn yr Hen Lys ym Miwmares ble mae yna lun mewn pen ag inc o ddau ffermwr yn cweryla'n chwys laddar dros fuwch. Un yn halio'r rhaff sydd o'r fodrwy yn ei thrwyn, y llall yn bystachu wrth dynnu ei chynffon i'r cyfeiriad arall. Yn y canol, yn eistedd ar stol yn godro'r fuwch yn sych, mae twrnai. Dengys y dyfyniad isod mai nid dyma'r drefn yn Oes Elizabeth I. 'Doedd yna ddim twrniaid lleol i'w cael yno y pryd hwnnw. Dichon mewnforiwyd hwy o Arfon i ddadleu yn y Cwrt Chwarter a'r Sesiwn Fawr, Llangefni?

Yn ei *The State of England, 1600* dywed F J Fisher o dan yr is-benawd '*The estate of common lawyers*': *There are [yng Nghymru a Lloegr] in number of sergeants about 30, counsellors about 2,000, and as many attorneys, besides solicitors, and pettifoggers an infinite number, there being no province, city, town, nor scarce village free from them, [a dyma'r rhan bwysig] unless the Isle of Anglesey, which boasts they never had lawyers nor foxes.*

Dyna ydy beth a feddylir gyda'r dywediad 'Mynd rownd y byd i egluro pwynt bach.' Doedd yna ddim llwynogod ym Môn yn 1600. A ddaethant yno ar ôl i Mr Telford godi ei Suspension Bridge ym 1826?

Ken ac Eirlys Griffiths

A son am llwynogod, dyma un o'r myrdd o luniau di-enw di-hawlfraint sydd yn mynd o gyfrifiadur i gyfifiadur ar y we gyda diolch i Haf Meredydd



Cuddfan Ted



Y capsïwn ar gefn y llun hwn yw "Y guddfan a ddefnyddwyd [gan y naturiaethwr a'r ffotograffydd Ted Breeze Jones] i dynnu llun Ehedydd y Graig, Rock Pipit, ar y Traeth Mawr ger Porthmadog":

gyda diolch i Ann Jones



Llun: Eifion Griffiths

Corheddydd y Graig ar bentir Llandrillo-yn-Rhos, Ionawr 16, 2010. Sylwer ar y coesau tywyll.



Llun a chapsïwn: Eifion Griffiths 16 Rhagfyr 2010: Bore echdoedd [14 Rhag 2010] corheddydd y graig yn pigo am sbarion yn y lôn ym mhen uchaf Stryd Llyn, Caernarfon. Eira mawr ar ei ffordd - eto! - medde nhw. Dyddiadur Llên Natur

Draenog marw...



Llun: Alun Williams

CYRFF DRAENOGOD AR Y FFYRDD
Cymru yn bennaf: 1989-91 fesul mis



Dywedir i'r nifer o ddraenogod ym Mhrydain ostwng o 35 million yn yr 1950au i lai na miliwn heddiw. Ceir, pelenni malwod, waliau solat o gwmpas gerddi a chynnydd yn y boblogaeth moch daear yw rhai o'r ffactorau sydd yn cael y bai. Ydi hyn yn wir am Gymru? Rhwng 1989 a 1991 bu'r golygydd yn cyfri cyrff ar y ffordd. Mae'r graff uchod yn crynhoi'r cyfrif o ddraenogod fesul mis. Mis Mai yw'r penllanw - 31 draenog i bob mil o filltiroedd. Beth am i ni i gyd gyfri eto mis Mai nesaf?

Diffygion ar yr haul a'r Iloer

Welsoch chi'r diffyg ar y 15 Mehefin 2011: "when the moon rises at 2130 on the 15th just a few minutes before sunset, it will already be totally eclipsed. Maximum eclipse will have occurred just before at 2113, and totality will last another half an hour ending just after ten o'clock". [Chris Lintott, The Times 31 Mai 2011]. Dyma sylw arall o ddyddiadur y bardd John Clare, Swydd Northampton ar y 13 Mehefin 1825: *Observed an Eclipse or some other Phenomenon of the Sun this Morning not noticed in the Almanack. I first saw it about half past four and it continued until after five it had exactly the same appearance as an Eclipse and I believe it was nothing else.*

"Od o dywyll, diffyg ar yr haul" Bwlchtocyn, 9 Gorffennaf 1945

Lindys plagus

7 Gorffennaf 1906:...I saw hosts of tiny green moths fluttering round the Oak trees, that have been so devastated by their caterpillars this spring

Dyddiadur Edith Holden (Country Diary of an Edwardian Lady) Cofnododd George Bolam yn ei gyfrol *Wild Life in Wales* (1913) am y blynyddoedd mwyaf tebygol naill ai 1904, 1905 neu 1906 fel hyn "Many of the dingles [yn ardal Dolgellau] visited were draped with dingy grey instead of verdure, the leaves having been entirely stripped from most of the underwood, as well as from the trees overhead, by an attack of caterpillars, such as I hardly remember to have been surpassed anywhere else...innumerable webs with which the way was beset...wriggling larvae down ones neck, or up one's sleeves, at every turn...amongst the *Geometrae* by far the most abundant were (in addition to the winter moth *Cheimotobia brumata*) *Hibernia defoliaria* and *H. progemmaria*.

Mwy am bysgota a thryfer

Yn dilyn yr hanes ym Mwletin 39 cofiodd Wil Williams, Bethel, Môn am hanes tebyg o bysgota â fforch yn y gyfrol *Shorelands Summer Diary* gan C F Tunncliffe yn 1952.

When the tide was at its lowest and the rocks in the river were fully exposed, a stout figure was seen walking in midstream, prodding here and there with a five-pronged, long-handled fork. In his slow progress along the river he disturbed a small flock of waders, which twisted and turned, twisted and turned about the riverside before alighting again. They were Dunlin, a mixed flock of black-bellied adults and brown, pale-breasted juveniles. Slowly the man worked his way round the bend and to the rocks, and here the bed of the river came in for special attention and much prodding. When he came nearer we could see that there was a string trailing from his waist, and at the end of the string, in the water, was a flat-fish. This he had spiked lower down the river, but he had no luck while we watched. The "fork fisherman," as the young nephew called him, left the river and walked to the grassy shore where he changed his wet, old trousers for dry ones. As he left the beach we tried to do a deal with him over the garden wall, asking him if he would sell that single flat-fish. He thanked us but, saying that he "wanted it for the family," stumped away to the road, the fish dangling in his left hand, the fork in his right.

As the tide came in on the Cob and the sands quietened, the visitors went home and the noisy c... and some visitors the road bridge over the river... the two parapets... and, g... village... only... of the... o the... ost in...
Y diweddar Wan Ifans (Owen Evans) yw'r pysgotwr medda dau ne dri o drigolion Malltraeth wrtha i. Dw isho holi os oedd 'na rai eraill yn pysgota fel hyn. Wil



THE "FORK FISHERMAN"

107

Mwy am y sgwarnog ar y clawr

'Cerddad oeddwn i ar hyd llwybr cyhoeddus yn ardal Bodorgan 'ma pan welais i sgwarnog yn isda ar ei din ar y cae – golygfa nid anamal yn y cae arbennig yma. Pen dim dyma 'na sgwarnog arall yn rhedag ati, a dyma'r ddwy'n dechra rhedag ar ôl eu gilydd yn igam ogam nes iddy nhw fynd o'r golwg dros a thu ôl i glawdd pridd isal. Es yn fy mlaen at y giat mochyn ac aros yno i sbio o'nghwmpas. Yn sydyn, sylwi bod un sgwarnog reit wrth fy ymyl – o fewn dwy neu dair llath i mi - yn symud, stopio, symud, stopio. Wedyn daeth reit at fy nrhaed - o'n i'n meddwl ei bod am fynd heibio fi, ond symyd i ffwrdd, yn rhadlon nath hi nes i mi golli ei gweld am iddi fynd i ganol llwyni o eithin. Toedd yna ddim tywysog yn ei hela a toedd 'na ddim hogan ddel hefo sgert laes wrth fy ochr i chwaith! Es led cae yn fy mlaen, bron at yr ail giat mochyn, sy'n arwain at y trydydd cae, lle dw i wedi gweld sgwarnogod yno o'r blaen hefyd. Gwrando oeddwn i ar delor yr hesg, troellwr bach (medru ei glwed o pan mae o'n canu'n weddol agos i mi) a bras y cyrs yn canu, a sbio ar ffau pry cop. Roedd y pry cop wedi medru plygu deilen gellesg fel stwffwl ben-ucha'n isa, a'i ffau fel cwt Nissan yn y plygiad. Myn dian i, sylweddoli bod y sgwarnog wrth fy yml i eto – o fewn llathan deu ddwy i mi! Symyd, stopio a wedyn symyd yn rhadlon oddi wrtha i i'r brwyn a'r tyfiant. Os gwn i pa mor aml mae hyn yn digwydd a faint arall sydd wedi cael yr un profiad? Ai ar ôl i rhywun gael profiad fel hyn y daeth chwedl Pennant Malangell i fodolaeth tybed?'

Y llun a'r hanes gan Wil Williams

Nansi Richards a Mr Kellogg



Mae yna stori ar led bod Mr Kellogg wedi mabwysiadu celliog i hysbebu ei gomffecs ar gais y delynores Nansi Richards oherwydd tebygnwydd celliog a kellog. Myth Cymreig?

Pwll gwaethaf Cymru?



Any pond that needs a butile liner is probably a pond in the wrong place, but it was dug in good faith around 2003 by the BTCV for Bangor University. Since then it has acquired non-slip edges to make sure no marsh-loving species can live there (What could have been marshy edges where the water overflows are now covered in boardwalk). The wooden fencing with extra wire may be to keep wildlife out, or perhaps it is to keep unwilling wildlife in. Any amphibian that does squeeze in through the wire and lay its eggs will have its offspring eaten by the shoal of goldfish. As for the Danger Deep Water signs: if you stood in the middle, I doubt whether the water would come up to your knees. Is there a more wildlife-unfriendly wildlife pond in North Wales? If you know of one, please send a picture.

John Bratton, Porthaethwy

John ydi'r arbenigwr sydd yn rhoi enw ar y lluniau o byfed sydd yn cyrraedd Oriol gwefan Llén Natur. Dewch a'ch lluniau a'ch lluniau o byfed - ond ceiswch eu henwi eich hun os y gallwch (a rhoi dyddiad a lle iddynt wrth gwrs)

diffyg ar yr haul, Awstralia 13 Gorffennaf 1889

Eirth gwlanog

Talacre 23 Mai 1924:...*Many Woolly Bears crawling on sand.* [Y *woolly bears* ydi lindys teigr yr ardd, tystiolaeth eu bod nhw wedi bod yn fwy cyffredin stalwm fel mae'r gem plant "rasus tedibers" yn tystio hefyd]

Dyddiadur di-enw o Tywyn, Abergele

Yn y rhifyn diwethaf roedd son am rasmus chwilod Mai gan blant yng ngwlad Belg. Beth am eich hanesion chi yn blant gyda bywyd gwyll (creulon neu beidio - dewch á nhw)

Ymateb Gwyn Jones i Fwletin 38

mesuriadau:

topsian - o flawd (hwn yn y geiriadur - o *topstone* mae'n debyg)

drefa - o wlan

enwau ar y giach

gafr wanwyn ('gafar wannwn'). 'Fel gafr wanwyn' yn ddywediad - heini ddeallais i oedd ei ystyr...

"O na - llanw isel 'to"

leico'r pishyn am y llanw yn fawr iawn! Mi ges sbel yn adolygu cyfieithiad o werslyfr daearyddiaeth rai blynyddau'n ol: 'llanw ffynnon' - wel, spring tide wrth gwrs!!!

golfan y mynydd

Gweld dy bendroni am Passer montanus [does dim cysylltiad a'r mynydd, nag â *montanus* gan y golfan hon, sef y TREE sparrow]. Onid oes adlais fan hyn o'r ebyst fuodd rhyngta i a Twm Elias am wahanol dermau daearyddol? wele:

"Weden i mai 'mynydd' yw'r gair sy'n cyfateb orau i 'moor'! Wele'r holl 'fynyddau' ar lawr gwlad yn y de. Mae'r tebygrwydd i 'mount' yn ein twyllo - pe taen ni'n siarad Gwyddeleg mi allen uniaethu'n hytrach a '*monadh*' a'i ystyr. Diddorol deall mai ystyr '*monte*' yn Sbaeneg yw rhywbeth tebyg i '*forest*' - *monte bajo*: prysgwydd; *monte alto*: coedwig. Tir gwyllt, mewn geiriau eraill - ond wedyn, onid 'gwyllt' yw un o ystyron 'gwydd', eto fel yn y Wyddeleg 'fiadh'? (Ac ystyr arall 'fiadh' yw carw, sy'n atgoffa dyn o 'Wild' yr Almaenwr....) A 'forest' ei hunan - onid 'tu faes' yw ei darddiad, sef y gwyllt?"

Ar ei ben Gwyn! I bob pwrpas felly: "golfan y ty" (*house sparrow*) a "golfan y tu fas" (*tree sparrow*)!

Blobars Coch



Blobars Coch wedi eu gweld yng Nghaernarfon heddiw [30 Mai 2011], wedi gweld rhai ers tua pythefnos i dair wythnos yn ôl, sy'n golygu eu bod bron i ddau fis o flaen eu hamser eleni. Ym mis Awst mae nhw yma fwyaf, a dwi'n credu mai tua 10% o'r nifer sydd yma ar hyn o bryd. Math o Sglefrod Môr yw Blobars Coch

Tony Lovell

Mae Tony yn iawn... mis Awst y'u gwelir rhan amlaf...Sglefren Harri Morgan. *Cyanea capillata* - *Lion's Mane Jellyfish*, Fe welir yn aml mewn heigiau yn yr haf. Mae'r tентаclau yn hir iawn, ac mae pigiad ganddi yn boenus. Yn boenus iawn. Does neb erioed wedi eu lladd gan un. Mae'r tентаclau mor hir fe all y creadur yma fod yn un o'r anifeiliaid hiraf ar y ddear. Mae'r sglefren yn ymddangos mewn stori Sherlock Holmes o'r enw *The Adventure Of The Lion's Mane*.

Sion Roberts (arbenigwr morol)

Pós y mis



Roedd yr aeron hyn yn wyrdd ar 31 Mai 2011 pan dynnwyd y llun ger pentre Bethlehem, dyffryn Tywi. Pa liw fyddan nhw erbyn i chi dderbyn y Bwletin hwn ar y 1 Gorffennaf (pan fyddan nhw'n aeddfed)?

DU?

MELYN?

COCH?

Tocyn llyfr £10 i'r ateb cyntaf cywir trwy 'Cysylltwch' ar wefan Llên Natur.

<http://www.llennatur.com/gwyn/quask/html/cysylltwchllennatur.htm>

Ribes oedd ateb cywir y pos diwethaf, sef tarddiad yr enw Ribena. Lari Parc o'r Fron (Cymro o dras Awstriaidd a fagwyd yn ne Lloegr) oedd yr ennilydd. Dyma ei stori:

Dyma fy ateb i gael y wobwr am beth sydd tu ôl i'r enw masnachol 'ribena', neu fel mae'r hwntws yn galw'r defnydd, 'rhiwbeina'. [Hwre, lecio hon'na!, Gol.] *Ribes* ydy fy ateb, sef enw genus y cyrraens [cyrens duon yn yr achos hwn]. Yr oedd mham yn arfer galw cyrraens cochion yn *Ribiserl* yn nhafodiaeth Almaeneg o Awstria. Mae'r Almaenwyr go iawn yn cyfeirio at y ffrwythau duon fel *Johannisbeere*, hynny yw, aeron leuan. Ar ôl marwolaeth ein mham, dyma fi'n cludo sawl toriad o lwyni cyrraens cochion o'i gardd, a'u planu yn nhir Gwynedd. Maent yn tyfu'n dda, ac mae eu blas yn well nag yn nhiredd bras de Lloegr. Yn fannau, yr oedd y ffrwythau'n rhy sur o lawer, gan achosi'r dincnod gwaethaf. Ond yn fan hyn, maent yn sylweddol llai sur, i'r pwynt lle dwi'n mwynhau bwyta mwy nag un neu ddau!

Stori sy'n haeddu dwbl y wobwr Lari - tasa'r coffrau yn caniatáu! (Gol.) Mae'n siwr bod y gair hwn wedi rhoi i ni'r gair rhyfon yn y Gymraeg. Dyma enghraifft o ddefnydd o'r gair o ddyddiadur Eric Jones, Pontillyfni (a fu'n cadw siop llyfrau Cymraeg yng Nghaernarfon ers llawer dydd)

23 Mehefin 1961..Tynnu'r rhyfon cynta a dechrau crymanu dros y ffordd cyn swper...

Minnau'n sylwi heddiw [11 Mehefin 2011] yng ngerddi Llanrug y rhyfon yn barod i'w tynnu rwan. Nid felly yn fy ngardd i!



Troed yr wydd gwyn

Welsoch chi'r ffasiwn gnwd o hwn ar hyd ochrau amryw o lonydd Cymru? Mae'r Golygydd yn argyhoeddedig mai manteisio ar bridd sydd wedi ei ddinoethi gan halen trin y ffyrdd yn y gaeaf yw'r rheswm. Pam arall fyddai planhigyn yn tyfu yn y fath le, lle mae dŵr hallt wedi llifo i lawr camber y ffordd a chrynhoi. Hefyd mae'n perthyn i deulu'r *Chenopodiaceae* sydd yn cynnwys rhywogaethau fel yr *Atriplex* sydd wrth eu bodd ar lan y mor. Dyna fy stori - a dwi'n sticio at fo!